

Rhestr termau ar gyfer QiW, Cymeradwyaethau a Dynodiadau

Term	Meaning
Rheol 5 mlynedd (wrth ofyn am ddynodiad pellach)	Os yw'r Dyddiad dechrau Dynodi/ Cymeradwyo Hwyrhaf Sydd y Mwyaf Tebygol diwygiedig y gofynnir amdano gan y corff dyfarnu o fewn 5 mlynedd iDyddiad Dechrau Dynodi/Cymeradwyo, gellir prosesu'r diwygiad heb dystiolaeth gefnogol. Os yw'r Dyddiad dechrau Dynodi/ Cymeradwyo Hwyrhaf Sydd y Mwyaf Tebygol diwygiedig yn fwy na 5 mlynedd o'r l Dyddiad Dechrau Dynodi/Cymeradwyo, rhaid i'r corff dyfarnu ddarparu tystiolaeth o gefnogaeth yn unol â'r canllaw dynodi sydd i'w weld yma: 'Canllaw'r Corff Dyfarnu i Ddynodi.
Safon Uwch	Cymhwyster Safon Uwch.
U2 (A2)	Safon Uwch Ail flwyddyn. Mae'n cyfuno â'r cymhwyster Uwch Gyfrannol (UG) i ennill cymhwyster Safon Uwch llawn.
Ystod Oedran	Dyma'r ystodau oedran y mae'r cymhwyster yn cael ei gymeradwyo neu ei ddynodi ar eu cyfer ac felly maent yn gymwys i'w ddefnyddio ar raglenni dysgu a ariennir yn gyhoeddus ar gyfer dysgwyr o dan 19 oed. Gall mwy nag un ystod oedran fod yn berthnasol i unrhyw gymhwyster.
Dynodi At Ddibenion Penodol	Mae Cymwysterau Cymru yn gallu ddynodi cymwysterau at ddibenion penodol a hefyd nodi nad yw cymhwyster wedi'i ddynodi at un neu fwy o ddibenion penodol. Mae'r canlynol yn enghreifftiau o ddibenion penodol, ond gall y rhain amrywio yn dibynnu ar y cyd-destun, ac nid ydynt yn gynhwysfawr: i. i'w defnyddio gan grwpiau penodol o ddysgwyr. ii. i'w defnyddio mewn math penodol o ganolfan. iii. i'w defnyddio mewn amgylchiadau eraill lle credwn fod angen penodol. Er enghraifft, er mwyn osgoi bylchau yn y ddarpariaeth i ddysgwyr, neu i hwyluso mynediad at gynnwys cymwysterau amgen. Gweler tudalen 6 o'r Polisi Dynodi am ragor o wybodaeth.
Diwygiad	Gall cyrff dyfarnu ofyn am ddiwygiad (newid) i'r data cymwysterau a gedwir ar gronfa ddata Cymwysterau yng Nghymru (QiW) .
Cymeradwyaeth	Mae cymeradwyo yn broses sydd i fod i wirio bod cymwysterau'n cwrdd â meini prawf cymeradwyo cyn bod ar gael i ddysgwyr. Gallwch ddod o hyd i ragor o wybodaeth am y broses gymeradwyo yma: Cymeradwyo Cymwysterau
Cymwysterau Cymeradwy	Dim ond yng Nghymru y gellir dyfarnu cymwysterau cymeradwy a byddant wedi bodloni meini prawf cymeradwyo cadarn sy'n sicrhau eu bod wedi'u cynllunio i ddiwallu anghenion dysgwyr yn y wlad. Mae cymwysterau cymeradwy yn gysylltiedig â chymwysterau ar y Rhestr Cymwysterau Blaenoriaeth (PQL).
Safon UG	Cymhwyster Safon Uwch Gyfrannol - blwyddyn gyntaf Safon Uwch (neu gymhwyster annibynnol)
Dulliau Asesu	Y dulliau asesu a ddefnyddir i asesu gwybodaeth, dealltwriaeth a gallu dysgwr. Nodir y rhain ym manyleb y cymhwyster ee,

	portffolio tystiolaeth, asesiad dan reolaeth. Gellir dewis dulliau asesu lluosog.
Corff Dyfarnu / Sefydliad Dyfarnu	Mae corff dyfarnu yn sefydliad sy'n rhoi dyfarniad addysgol yn aml yn dilyn asesiad ffurfiol. (a elwid gynt yn Fwrdd Arholi)
Canolfan	Sefydliad sy'n atebol i gorff dyfarnu am drefniadau asesu sy'n arwain at ddyfarnu credyd neu gymwysterau.
Dyddiad Gorffen Ardystio Dynodi/ Cymeradwyo	Diwedd y cyfnod dynodi/cymeradwyo a'r dyddiad olaf y gall dysgwr gael ei ardystio am gymhwyster sy'n gymwys i'w ddefnyddio ar raglenni dysgu a ariennir yn gyhoeddus ar gyfer dysgwyr dan 19 oed.
Cyfnod Ardystio	Gelwir yr amser rhwng y Dyddiad dechrau Dynodi/ Cymeradwyo hwyraf sydd y mwyaf tebygol a'r Dyddiad Gorffen Ardystio Dynodi/ Cymeradwyo yn Gyfnod Ardystio.
Credyd	Mae credyd yn ymwneud â'r cyllid y gallai canolfan gymeradwy ei dderbyn ar gyfer dysgu'r cymhwyster.
Cynllunio Cwricwlwm	Cynllunio cwricwlwm yw'r broses o benderfynu ynghylch cynnwys a threfniadaeth dysgu y mae canolfan yn gyfrifol amdani. Os oes gennych ymholiadau ynghylch Cynllunio Cwricwlwm a dewis Cyn /Ôl 16, cysylltwch â 14-19@gov.wales
Proses Dynodi	Y broses o adolygu cymwysterau yn erbyn meini prawf dynodi i sicrhau bod cymhwyster yn addas at y diben ac yn gymwys i'w ddefnyddio ar raglenni dysgu a ariennir yn gyhoeddus i ddysgwyr o dan 19 oed yng Nghymru.
Canllaw Dynodi	Defnyddir hwn gan CC wrth adolygu cymhwysedd cymwysterau i'w dynodi. Gellir dod o hyd i yma: Canllaw'r Corff Dyfarnu i Ddynodi
Cymwysterau Dynodedig	Er mwyn i gymhwyster gael ei 'ddynodi', rhaid i'r cymhwyster fodloni'r meini prawf dynodi. Ar ôl ei ddynodi, daw cymhwyster ar gael ar raglenni dysgu yng Nghymru a ariennir yn gyhoeddus ar gyfer dysgwyr o dan 19 oed.
E-Asesu	Y prosesau electronig o'r dechrau i'r diwedd lle defnyddir TGCh ar gyfer cyflwyno gweithgaredd asesu a chofnodi ymatebion. Mae hyn yn cynnwys y broses asesu o'r dechrau i'r diwedd o safbwynt dysgwyr, tiwtoriaid, sefydliadau dysgu, cyrff dyfarnu, rheoleiddwyr a'r cyhoedd.
Lefel Mynediad	Yn berthnasol i ddysgwyr nad ydynt yn barod ar gyfer cymwysterau lefel TGAU.
Lefel FfCE (EQF)	Dyma'r gymhariaeth â'r Fframwaith Cymwysterau Ewropeaidd. Yn QiW, cynhyrchir y maes hwn yn awtomatig o'r maes Lefel Cymhwyster.
Tystiolaeth o alw	Gofynnir i gyrff dyfarnu ddarparu hyn i brofi bod galw digonol am y cymhwyster yng Nghymru gan ganolfan gymeradwy. Defnyddir hwn i gynorthwyo'r cais i ddynodi cymhwyster. Gellir gweld rheolau ynghylch ein gofynion tystiolaeth yn y canllaw dynodi.

Tystiolaeth o gefnogaeth broffesiynol	Gofynnir i gyrrff dyfarnu ddarparu hyn i brofi bod digon o gefnogaeth i'r cymhwyster yng Nghymru gan ddefnyddwyr terfynol neu randdeiliaid perthnasol. Defnyddir hwn i ategu'r cais am ddynodi neu ymestyn cymhwyster. Gellir gweld rheolau ynghylch ein gofynion tystiolaeth yn y ddogfen Canllaw'r Corff Dyfarnu i Ddynodi
I'w cynnwys mewn fframweithiau Prentisiaeth?	Dangosydd ynghylch a yw'r cymhwyster i gael ei gynnwys o fewn fframweithiau prentisiaeth yng Nghymru. Defnyddir y wefan ganlynol i gyfeirio at hyn: Frameworks Library
Dynodiad pellach	Ymestyn y dyddiadau gorffen ar gymhwyster dynodedig. I wneud hyn, rhaid i gyrrff dyfarnu gyflwyno cais am ddiwygiad trwy QiW ac atodi unrhyw dystiolaeth ofynnol fel yr amlinellir yng nghanllaw'r corff dyfarnu i ddynodi sydd i'w weld yma: Canllaw'r Corff Dyfarnu i Ddynodi
Addysg Bellach	Addysg Bellach yw addysg sy'n is na lefel gradd i bobl uwchlaw oedran ysgol.
TAG Safon UG / Uwch	Tystysgrif Addysg Gyffredinol UG / Safon Uwch
TGAU	Tystysgrif Gyffredinol Addysg Uwchradd
Cymhwyster Cyffredinol (GQ)	Ystyriwn mai cymwysterau cyffredinol yw'r rhai sy'n asesu gwybodaeth a dealltwriaeth mewn pwnc a ddewiswyd. Yn gyffredinol, cymwysterau TGAU, TAG (Safon Uwch) a Bagloriaeth Cymru yw'r rhain.
Cymhwyster Galwedigaetho I (VQ)	Ystyriwn mai cymwysterau galwedigaethol yw'r rhai sy'n asesu gwybodaeth, dealltwriaeth a /neu sgiliau sy'n ymwneud yn benodol â byd gwaith.
Graddfa Raddio	Dyma'r raddfa ar gyfer graddio'r cymhwyster. Er enghraifft: Pasio, Teilyngdod a Rhagoriaeth neu A*-G
Oriau Dysgu dan Arweiniad (GLH)	Mae'r oriau dysgu dan arweiniad ar gyfer cymhwyster yn fesur tybiannol o sylwedd cymhwyster hy faint o amser sy'n angenrheidiol i'w ddysgu'n effeithiol. Mae'n ofyniad gan Lywodraeth Cymru fod Oriau Dysgu dan Arweiniad cymedrig unrhyw gymhwyster a reoleiddir yng Nghymru yn cael ei gofnodi ar QiW.
AU	Addysg uwch yw addysg drydyddol sy'n arwain at ddyfarnu gradd academiaidd. Mae addysg uwch, a elwir hefyd yn addysg ôl-uwchradd, addysg drydedd lefel neu drydyddol, yn gam olaf dewisol o ddysgu ffurfiol sy'n digwydd ar ôl cwblhau addysg uwchradd.
IVET / CVET	IVET = Addysg a Hyfforddiant Galwedigaethol Cychwynnol a elwir hefyd yn Galwedigaethol Rhagarweiniol. Mae'r cymwysterau hyn yn addas ar gyfer dysgwyr o bob oed a gallu. Mae'r cymwysterau hyn ar gael i ddysgwyr cyn-16. CVET = Addysg a Hyfforddiant Galwedigaethol Parhaus a elwir hefyd yn Gymhwysedd Galwedigaethol. Mae'r cymwysterau hyn wedi'u cynllunio ar gyfer dysgwyr dros 16 oed. Nid yw'r cymwysterau hyn ar gael i ddysgwyr cyn 16 oed.

Iaith	Dyma'r cyfrwng iaith y sicrheir bod asesiad o'r cymhwyster ar gael trwyddi ee Saesneg a Chymraeg neu Gymraeg yn unig.
Darparwr Dysgu	Ysgol, coleg, canolfan hyfforddi, neu weithle sy'n cynnig cyfleoedd addysgol. Cyfeirir at y rhain yn aml fel 'Canolfannau' a byddant yn ddarostyngedig i rwymedigaethau cytundebol gyda'r corff dyfarnu sy'n gyfrifol am ddyfarnu'r cymwysterau a gynigir.
Yn Fyw	Mae cymhwyster yn parhau i fod 'yn Fyw' yn QiW nes bod y Dyddiad Dechrau Dynodi/ Cymeradwyo Hwyrac Sydd y Mwyaf Tebygol yn mynd heibio. Mae cyrff dyfarnu yn derbyn e-bost gan QiW 6 mis cyn y Dyddiad Dechrau Dynodi/ Cymeradwyo Hwyrac Sydd y Mwyaf Tebygol fel y gellir gwneud penderfyniad ynghylch a oes angen ymestyn y cymhwyster, ei newid i gymhwyster rheoleiddiedig arall neu ei dynnu'n ôl a'i archifo.
Cymwysterau Galwedigaetho I Cenedlaethol (NVQ)	Mae CGCau yn seiliedig ar Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol (NOS). Maent yn gymwysterau sy'n ymdrin â holl brif agweddau galwedigaeth benodol, gan gynnwys arfer gorau cyfredol, y gallu i addasu i ofynion y dyfodol a'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth sy'n sail i berfformiad cymwys.
Safonau Galwedigaetho I Cenedlaethol (NOS)	Mae'r safonau hyn yn ddatganiadau perfformiad sy'n disgrifio'r hyn y mae disgwyl i bobl gymwys mewn galwedigaeth benodol ei wneud.
Ofqual	Swyddfa Rheoleiddio Cymwysterau ac Arholiadau. Y sefydliad sy'n rheoleiddio cymwysterau, arholiadau a phrofion yn Lloegr.
Dyddiad dechrau Dynodi/ Cymeradwyo Hwyrac Sydd y Mwyaf Tebygol	Y dyddiad olaf/ hwyrac y gall dysgwr ddechrau cwrs sy'n arwain at gymhwyster sy'n gymwys i'w ddefnyddio ar raglenni dysgu a ariennir yn gyhoeddus ar gyfer dysgwyr dan 19 oed, yn seiliedig ar y model darparu mwyaf tebygol.
Cymwysterau Rheoleiddiedig Eraill	Cymwysterau sy'n cael eu rheoleiddio gan Gymwysterau Cymru ond nad ydynt wedi'u cymeradwyo /dynodi ac felly nad ydynt yn gymwys i'w defnyddio ar raglenni dysgu a ariennir yn gyhoeddus ar gyfer dysgwyr o dan 19 oed yng Nghymru.
Llwybr	Llwybr penodol o gyrsiau a gymerir gan fyfyrwr i gael mynediad i gwrs uwch neu tuag at gymhwyster terfynol.
Rhestr Cymwysterau Blaenoriaethol (PQL)	Rhestr sy'n nodi cymwysterau ar gyfer cymeradwyo blaenoriaethol. Rhaid i bob cymhwyster gael ei gymeradwyo neu ei ddynodi gan Gymwysterau Cymru cyn y gall y pynciau dderbyn cyllid ar gyfer eu haddysgu mewn ysgolion a cholegau.
Pwrpas	Mae pwrpas y cymhwyster yn cyfleu gwybodaeth am yr hyn y mae cymhwyster wedi'i gynllunio'n bennaf i'w wneud yn hytrach na'r hyn y gellir ei ddefnyddio ar ei gyfer ee "Paratoi ar gyfer dysgu neu hyfforddiant pellach a /neu ddatblygu gwybodaeth a /neu sgiliau mewn maes pwnc".
Corff Proffesiynol	Corff neu grŵp sy'n ymwneud â'r un proffesiwn, a ffurfiwyd fel arfer i gynnal safonau, a chynrychioli'r proffesiwn mewn trafodaethau â chyrff, gweithwyr proffesiynol neu sefydliadau eraill.

Deddf Cymwysterau Cymru, 2015 (Y Ddeddf)	Sefydlwyd Deddf Cymwysterau Cymru gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn 2015 gyda'r prif nodau canlynol: 1. Sicrhau bod cymwysterau, a'r system gymwysterau, yn effeithiol ar gyfer diwallu anghenion rhesymol dysgwyr yng Nghymru; 2. Hyrwyddo hyder y cyhoedd mewn cymwysterau a system gymwysterau Cymru.' Gellir gweld copi o'r Ddeddf yma: Deddf Cymwysterau Cymru, 2015																						
Rhif Cymeradwyo Cymhwyster (QAN)	Mae hwn yn gyfeirnod cymhwyster a gymhwysir at gymwysterau sy'n cael eu rheoleiddio gan Ofqual.																						
Cronfa ddata Cymwysterau yng Nghymru (QiW)	Mae QiW yn ffynhonnell wybodaeth gynhwysfawr am gymwysterau cymeradwy, dynodedig a chymwysterau rheoleiddiedig eraill sydd ar gael i ddysgwyr yng Nghymru.																						
Defnyddiwr / Defnyddwyr QiW	Unrhyw berson neu grwpiau o bobl sy'n defnyddio QiW.																						
Cymhwyster	Dyfarniad a wneir gan gorff dyfarnu i ddangos cyflawniad cymhwysedd dysgwr																						
Lefel Cymhwyster	<p>Mae hyn yn dangos lefel y cyrhaeddiad y mae cymhwyster yn ei gynrychioli. Mae Lefel 1 yn gyfwerth â gradd D-G mewn TGAU, mae Lefel 2 yn cyfateb i radd A*-C mewn TGAU ac mae Lefel 3 yn cyfateb i Lefel Uwch. Mae'r set o lefelau a ddefnyddir yng Nghymru yn rhan o Fframwaith Credydau a Chymwysterau Cymru. Mae Fframwaith Credydau a Chymwysterau Cymru (CQFW) wedi'i gysoni â'r Fframwaith Cymwysterau Ewropeaidd (EQF).</p> <p>Gweler y tabl isod am gywerthedd ar draws y fframweithiau:</p> <table border="1" data-bbox="798 1249 1106 1809"> <thead> <tr> <th>Lefel FfCCC (CQFW)</th> <th>Lefel FfCE (EQF)</th> </tr> </thead> <tbody> <tr> <td>Lefel Mynediad</td> <td>1</td> </tr> <tr> <td>Lefel 1</td> <td>2</td> </tr> <tr> <td>Lefel 1/2</td> <td>2/3</td> </tr> <tr> <td>Lefel 2</td> <td>3</td> </tr> <tr> <td>Lefel 3</td> <td>4</td> </tr> <tr> <td>Lefel 4</td> <td>5</td> </tr> <tr> <td>Lefel 5</td> <td>5</td> </tr> <tr> <td>Lefel 6</td> <td>6</td> </tr> <tr> <td>Lefel 7</td> <td>7</td> </tr> <tr> <td>Lefel 8</td> <td>8</td> </tr> </tbody> </table>	Lefel FfCCC (CQFW)	Lefel FfCE (EQF)	Lefel Mynediad	1	Lefel 1	2	Lefel 1/2	2/3	Lefel 2	3	Lefel 3	4	Lefel 4	5	Lefel 5	5	Lefel 6	6	Lefel 7	7	Lefel 8	8
Lefel FfCCC (CQFW)	Lefel FfCE (EQF)																						
Lefel Mynediad	1																						
Lefel 1	2																						
Lefel 1/2	2/3																						
Lefel 2	3																						
Lefel 3	4																						
Lefel 4	5																						
Lefel 5	5																						
Lefel 6	6																						
Lefel 7	7																						
Lefel 8	8																						
Manyleb Cymwysterau	Dyma'r fanyleb ar gyfer y cymhwyster a ddarperir gan y corff dyfarnu ac mae'n amlinellu amcanion a chanlyniadau'r cymhwyster, ynghyd â datganiad manwl sy'n diffinio pwrpas, cynnwys, strwythur a threfniadau asesu cymhwyster.																						

Is-Lefel Cymhwyster	Mae hyn er mwyn dosbarthu cymhwyster lefel Mynediad i lefel 1, 2 neu 3.
Teitl y Cymhwyster	Mae hyn yn ei gwneud yn bosibl i'r cymhwyster gael ei adnabod yn hawdd mewn perthynas â'r pwnc neu'r cynnwys. Rhaid i'r teitl gynnwys y canlynol: Enw'r corff dyfarnu, lefel y cymhwyster, y math o gymhwyster (lle bo hynny'n berthnasol) ac arwydd CRYNO o gynnwys y cymhwyster. Cyfeiriwch at Amod E2 yr Amodau Cydnabod Cyffredinol.
Math o Gymhwyster	Dyma'r math o fanyleb y mae'r cymhwyster wedi'i ysgrifennu i'w bodloni ee TGAU, Safon Uwch.
Rheoleiddiwr Cymwysterau	Sefydliad sy'n monitro ac yn cynnal safonau ar gyfer cymwysterau allanol, er enghraifft, Cymwysterau Cymru, Ofqual (yn Lloegr), CCEA (yng Ngogledd Iwerddon) a SQA (yr Alban).
Cymwysterau Cymru	Rheoleiddiwr yr holl gymwysterau heblaw graddau a'r system gymwysterau yng Nghymru.
Rhif Cymeradwyo / Dynodi CC (QW)	Y rhif unigryw a ddyrennir i bob cymhwyster a gyflwynir i QiW.
Cyfeirio'n ôl	Gellir cyfeirio cymhwyster yn ôl at gorff dyfarnu os oes anghysondebau gyda'r wybodaeth wrth ei gwirio yn erbyn y meini prawf dynodi /cymeradwyo a /neu os nad oes tystiolaeth ddigonol i alluogi CC i ddynodi neu gymeradwyo'r cymhwyster i sicrhau ei fod ar gael yn QiW.
Cofrestr Cymwysterau Rheoleiddiedig (Y Gofrestr)	Mae hyn yn cynnwys Cyrff Dyfarnu Rheoleiddiedig a'u Cymwysterau Rheoleiddiedig. Mae'r gofrestr yn cynnwys TGAU, Safon Uwch, lefel UG a chymwysterau galwedigaethol (rhai cysylltiedig â gwaith) yn Lloegr (fel y'u rheolir gan Ofqual) a Gogledd Iwerddon (fel y'u rheolir gan CCEA). Mae'r data hwn yn cael ei gadw a'i gynnal gan Ofqual ac mae'n hollol ar wahân i gronfa ddata QiW. Gellir gweld y gofrestr yma: https://register.ofqual.gov.uk/
Cymwysterau rheoleiddiedig	Pob cymhwyster heblaw gradd (p'un a yw'n un cymeradwy, un dynodedig, neu reoleiddiedig arall) a gynigir i'w ddyfarnu gan gorff dyfarnu a gydnabyddir gan Gymwysterau Cymru (oni bai bod naill ai corff dyfarnu wedi ildio'i gydnabyddiaeth mewn perthynas â'r cymhwyster hwnnw, neu os yw corff dyfarnu wedi'i eithrio cymhwyster hwnnw o gwmpas ei gydnabyddiaeth trwy hysbysu Llywodraeth Cymru cyn 21 Medi 2015).
Cyfyngiad	Mae adran 14 y Ddeddf yn caniatáu i Gymwysterau Cymru gyfyngu ar gymhwyster sydd ar y Rhestr Cymwysterau Blaenoriaethol ("y Rhestr") 1 Gallai Cymwysterau Cymru ystyried a ddylid cymhwyso cyfyngiad i gymhwyster ar y Rhestr. Bydd cyfyngiad yn cyfyngu ar nifer y ffurfiau (neu 'fersiynau') o gymhwyster y gellir eu cymeradwyo ar unrhyw adeg.
Math o Adolygiad	Dyma'r math o gymhwyster sy'n cael ei gadw yn QiW, sef: Cymeradwywyd - dylai'r cymhwyster ymddangos ar y rhestr cymwysterau blaenoriaethol (PQL) ar gyfer eu cymeradwyo ac fe'u hariennir gan Lywodraeth Cymru; Dynodedig - ar gyfer

	cymwysterau sydd i gael eu defnyddio ar raglenni dysgu a ariennir yn gyhoeddus ar gyfer dysgwyr o dan 19 oed yng Nghymru; Rheoleiddiedig eraill - cymwysterau a reoleiddir gan Gymwysterau Cymru ond nad ydynt wedi'u cymeradwyo / dynodi ac felly nad ydynt yn gymwys i'w defnyddio ar raglenni dysgu a ariennir yn gyhoeddus ar gyfer dysgwyr o dan 19 oed yng Nghymru.
Adolygiadau Sector	Adolygiad Sectoraidd yw'r dull allweddol y mae CC yn mynd ati i adolygu a diwygio cymwysterau galwedigaethol yng Nghymru. Mae mwy o wybodaeth am strategaethau, prosesau a llinellau amser adolygu'r sectorau i'w gweld yma: https://www.qualificationswales.org/english/qualifications/vocational-qualifications/sector-reviews/
Maes Pwnc Sector	Meysydd pwnc sector yw'r gyfres o gategoriâu sy'n seiliedig ar sectorau diwydiant a phynciau academaidd a ddefnyddir i ddsbarthu cymwysterau ee, gallai cymhwyster ddod i'r categori Gwyddoniaeth a Mathemateg neu Iechyd, Gwasanaethau Cyhoeddus a Gofal.
Amodau Cydnabod Safonol (SCoR)	Mae'r Amodau Safonol yn cynnwys y rheolau y mae'n rhaid i bob corff dyfarnu a'u cymwysterau eu bodloni wrth gynnig cymwysterau i ddysgwyr yng Nghymru. Mae gan bob corff dyfarnu rheoledd ofyniad cyfreithiol i gydymffurfio â'r rheolau hyn yn barhaus. Gellir gweld copi o'r Amodau Cydnabod Safonol yma: Amodau Cydnabod Safonol.
Dyddiad dechrau Dynodi/Cymeradwyo	Y dyddiad pan mae'r cyfnod dynodi/ cymeradwyo yn dechrau a'r dyddiad cyntaf/ cynharaf y gall dysgwr ddechrau cwrs sy'n arwain at gymhwyster sy'n gymwys i'w ddefnyddio ar raglenni dysgu a ariennir yn gyhoeddus ar gyfer dysgwyr dan 19 oed.
Maes Pwnc Issecto	Meysydd is-sector yw'r ail haen o gategoriâu sy'n seiliedig ar sectorau diwydiant a phynciau academaidd a ddefnyddir i ddsbarthu cymwysterau. Er enghraifft, os yw'r Maes Pwnc Sector yn 8. Hamdden, teithio a thwristiaeth gallai'r Maes Pwnc Is-sector fod yn 8.1 Chwaraeon a hamdden.
Manylion cyflwyno a roddwyd i:	Mae cyrff dyfarnu yn darparu cyfeiriad e-bost ar gyfer derbyn unrhyw hysbysiadu ynghylch dynodiad neu gymeradwyo.
Is-bwrpas	Mae'r is-bwrpas yn cyfleu gwybodaeth am yr hyn y mae cymhwyster wedi'i gynllunio i'w wneud yn hytrach na'r hyn y gellir ei ddefnyddio ar ei gyfer.
Cyfres	Mae hyn yn cyfeirio at grŵp o gymwysterau yn yr un sector. Fe'u nodir fel arfer fel Dyfarniad, Tystysgrif, Diploma ond mae eraill hefyd wedi'u cynnwys mewn rhai cyfresi megis Sylfaen, Dyfarniad Estynedig, Tystysgrif Estynedig, Diploma Estynedig.
Dogfennau Ategol	Dyma'r dystiolaeth o'r galw a'r gefnogaeth y mae cyrff dyfarnu yn eu darparu i sicrhau bod cymwysterau'n cwrdd â'r meini prawf ar gyfer cymeradwyo /dynodi. Gall tystiolaeth fod ar ffurf e-bost neu lythyr ffurfiol; un i ddangos galw yng Nghymru ac un i ddangos cefnogaeth broffesiynol i'r cymhwyster.

Ildio	Y penderfyniad a wneir gan gorff dyfarnu i beidio â chael ei gydnabod gan Gymwysterau Cymru.
Amodau Cydnabod Safonol (SCoR)	Yr holl amodau y mae cydnabyddiaeth corff dyfarnu yn Cydnabod Safonol (SCoR) ddarostyngedig iddynt (gan gynnwys amodau safonol a osodir o dan Atodlen 3 Deddf Cymwysterau Cymru 2015). Mae'r amodau wedi'u nodi yma: Amodau Cydnabod Safonol
Cyfanswm Oriau Cymhwysu (TQT)	Cyfanswm Oriau Cymhwysu yw nifer yr oriau tybiannol sy'n cynrychioli amcangyfrif o gyfanswm yr amser y gellid yn rhesymol ddisgwyl y byddai ei angen ar ddysgwr i ennill cymhwyster.
Gwiriad Dilysu	Dyma'r gwiriadau ffurfiol ar y data sydd wedi'u poblogi ar y ffurflen QiW a gyflwynir gan gyrff dyfarnu sy'n dymuno dynodi cymhwyster.
Tynnu'n ôl	O dan Amod E6.1, os yw cymhwyster i gael ei reoleiddio rhaid iddo fod ar QiW. Os nad yw ar QiW ni fydd yn cael ei reoleiddio gan Gymwysterau Cymru. Os bydd corff dyfarnu yn penderfynu na ddylid cynnig cymhwyster fel cymhwyster rheoleiddiedig yng Nghymru mwyach, gallant ofyn am dynnu'r cymhwyster yn ôl o'r cynnig. Rhaid i gyrff dyfarnu gadarnhau eu bod yn cydymffurfio ag Amod D6 yr Amodau Cydnabod Safonol cyn i ni gytuno i dynnu cymhwyster yn ôl. Mae hyn er mwyn amddiffyn budd unrhyw ddysgwyr a allai fod yn dal i astudio'r cymhwyster.
Darparwyr Dysgu Seiliedig ar Waith	Rhanddeiliaid yw'r rhain sy'n darparu profiadau gwaith mewn bywyd go iawn i fyfyrwyr lle gallant gymhwyso sgiliau academiaidd a thechnegol a datblygu eu gyrfa a'u cyflogadwyedd.
Cyfnod Dynodi/Cymeradwyo	Y cyfnod rhwng y Dyddiad Dechrau Dynodi/Cymeradwyo a'r Dyddiad Gorffen Ardystio Dynodi/Cymeradwyo.
Dyddiad gorffen Rheoleiddio	Y dyddiad ofaf y byddai Cymwysterau Cymru yn rheoleiddio'r cymhwyster.